

**"O ffurfiau i deuluoedd geiriau" - defnyddio rhannau o eiriau (dodiaid) yn Gymraeg er mwyn cynyddu geirfa dysgwyr yn esbonyddol**

Cynhaliwyd y prosiect "O ffurfiau i deuluoedd geiriau" ym Mhrifysgol Abertawe rhwng Medi 2023 a Mawrth 2024 gan Tess Fitzpatrick, Steve Morris a Gosia Rutecka. Cyd-ariannwyd y prosiect gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a Dyfarniad Cyflymu Traweffaith yr AHRC (Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau).

1. NODAU'R PROSIECT:

- Galluogi a hybu dysgu rhannau o eiriau (dodiaid yn benodol) yn systematig a thrwy hynny, cyflymu cynnydd ym maint geirfa dysgwyr trwy eu galluogi i ymestyn gwybodaeth am un geirffurf i wybodaeth am aelodau eraill o'r teulu hwnnw o eiriau;
- Nodi'r rhannau o eiriau y daw dysgwyr ar eu traws fwyaf aml mewn geirfa Gymraeg ynghyd â'r rhai mwyaf defnyddiol wrth ymestyn geirfa gynhyrchiol – h.y. *defnyddio* geirfa;
- Creu rhestr o ddodiaid sy'n briodol ar gyfer lefelau penodol dysgwyr (yn ôl diffiniadau CEFR), er mwyn hysbysu addysgu a dysgu dodiaid, ac ymestyn hyn i hysbysu asesu gwybodaeth am deuluoedd o eiriau.

2. CEFNIDIR A CHYD-DESTUN

Golyga rhyddhau corpws CorCenCC yn 2020 (Knight, Morris, Fitzpatrick et al., 2020) fod modd bellach gyrchu rhestr o eirfa Gymraeg cyfoes ar sail amllder wedi'u hysbysu gan gorpws. Un rhestr o'r fath yw *Yr Amlidur* (Knight, Morris, Tovey-Walsh et al., 2020) ac mae cyhoeddi honno'n golygu bod modd craffu ar eirfa a ddefnyddir yn aml. Ar ben hynny, mae'n hwyluso archwilio'r rhannau o eiriau (dodiaid) mae rhywun fwyaf tebygol o ddod ar eu traws yng nghyd-destun y termau geirfaol amllder uchel hyn.

Mae gwybodaeth am ddodiaid yn cynnig modd i ddysgwyr adnabod a chynhyrchu geiriau y tu hwnt i eitem teulu geiriau benodol maen nhw wedi'i dysgu (gw. e.e. Webb a Nation, 2017, tt.162-169). Er enghraifft, bydd dysgwr sy'n gwybod *dysgu* a *ffarm*, ac yn dysgu bod yr ôl-ddodiad *-wr* yn creu enw "person" gwrywaidd, yn medru creu

*dysgwyr* a *ffarmwr*, a hefyd yn medru rhagdybio ystyr eitemau *-wr* maen nhw'n dod ar eu traws mewn testun. Gall dysgu dodiaid, felly, gynyddu maint geirfa yn esbonyddol. Yr her i athrawon a dysgwyr yw penderfynu pa ddodiaid i'w dysgu ar ba gyfnod dysgu. Awgryma amcangyfrifiad ar sail Thomas (1996) fod 78 o ddodiaid cynhyrchiol<sup>1</sup> yn cael eu defnyddio yn y Gymraeg. Mae'n amlwg yn ddymunol dethol yn strategol pa ddodiaid i'w dysgu, yn enwedig yng nghyfnodau cynnar y dysgu; yn wir, dyma nod y prosiect hwn. Cafodd rhestr graddedig o ddodiaid ar gyfer Saesneg eu creu yn y gorffennol; enghraifft o hyn yw Bauer a Nation (1993) sy'n cael eu dyfynnu'n aml, ac mae gwaith mwy diweddar yn cynnwys Sasao a Webb (2017), Cobb a Laufer (2021), a'r prosiect parhaus ar wybodaeth am ddodiaid sy'n cael ei redeg gan Brown a'i gydweithwyr (2020-2024). Cafodd y prosiect sy'n destun yr adroddiad hwn ei hysbysu gan y rhain, ond roedd y gwahaniaethau ieithyddol strwythurol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a'r canolbwyntio ar ddysgwyr cyfnod cynnar, yn gofyn am gynllunio methodoleg bwrpasol.

Gellir dod o hyd i restr cynhwysfawr o ddodiaid Cymraeg yn Thomas (1996), a dyna oedd man cychwyn y fethodoleg a gyflwynir yn yr adran nesaf. Yn unol â'r dosbarthiad safonol, mae Thomas yn nodi bod dodiaid yn gallu bod yn rhai *tarddiadol* neu *ffurfdroadol*. Mae dodiaid ffurfdroadol yn cyfeirio at elfennau gramadegol a ychwanegir at sail i roi gwybodaeth am rif (e.e. ffurfiau lluosog fel *-au, -i, -iaid, -ed...*), person / amser berf (e.e. gorffennol *-ais, -aist, -odd...*) neu gymharu ansoddeiriau (e.e. *-ed, -ach, -af*). Mae'n anochel fod y dodiaid ffurfdroadol hyn yn cael eu dysgu fel rhan o'r elfen ramadegol o fewn y cwricwlwm ac felly i raddau helaeth maen nhw eisoes wedi'u cysylltu â lefelau dysgu. Am y rhesymau hyn, penderfynwyd peidio â chynnwys dodiaid ffurfdroadol yn y prosiect hwn.

Gall dodiaid tarddiadol fod yn *rhagddodiaid* (a ychwanegir at ddechrau gair) neu *ôl-ddodiaid* (a ychwanegir at ddiwedd y gair). Bydd y rhain yn newid rhan ymadrodd gair yn aml e.e. o enw i ansoddair *gwynt > gwyntog* neu o enw i ferfenw *cân > canu*. Yn aml, mae rhagddodiaid yn newid, neu'n ychwanegu at, ystyr gair. Er enghraifft, mae'r rhagddodiad *an-* yn negyddu'r ystyr fel yn *cofio > anghofio*. Yn ogystal â hynny, gall fod elfen o affeithiad *gwaith > gweithio*. Mae hyn yn digwydd i'r un graddau gyda dodiaid ffurfdroadol (e.e. *gardd > gerddi*) ac mae'n elfen o ramadeg y Gymraeg mae dysgwyr yn dod yn fwy a mwy cyfarwydd â hi wrth iddyn nhw symud ar hyd y continwmm. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddodiaid tarddiadol yn unig.

Er mwyn sicrhau dilysrwydd ecolegol allbynnau'r prosiect, a sut maent yn cydblethu ag anghenion athrawon, dysgwyr, ac aseswyr, ymgynghorwyd ag arbenigwyr o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a CBAC ynghylch dull, a methodoleg y prosiect. Roedd eu hawgrymiadau – er enghraifft alinio amllder y rhestr o ddodiaid i'r CEFR a'r rhestr geirfa graidd – yn werthfawr wrth lunio'r prosiect.

---

<sup>1</sup> Mae rhestr Thomas (1996) yn cynnwys pedwar benthyciad o'r Saesneg sy'n gynhyrchiol mewn benthyciadau gwyddonol yn unig ac yn digwydd yn bennaf mewn geiriau academaidd hynod o anaml, sef *mono-, neo-, poly-* a *proto-*.

### 3. METHODOLEG

Defnyddiwyd tair prif ffynhonnell wrth gwblhau'r rhestrï dodiaid graddedig: rhestrï geiriau *Yr Amliadur* (Knight, Morris, Tovey-Walsh et al., 2020); rhestr anodedig y dodiaid yn Thomas (1996); a chorpws CorCenCC (Knight, Morris, Fitzpatrick et al., 2020). Hefyd, defnyddiwyd *Geiriadur Prifysgol Cymru* (2014) fel ffynhonnell gyfeirio.

Mae *Yr Amliadur* (Knight, Morris, Tovey-Walsh et al., 2020) yn rhestru'r 5000 gair/lema mwyaf aml yng nghorpws CorCenCC. Mae'r rhestr lawn ar gael ar gais; gellir cyrchu'r 1000 mwyaf aml yn uniongyrchol trwy wefan CorCenCC. A bwrw fod lemâu yn debygol o fod yn fwy defnyddiol i brosiect dodiaid na geiriau (maent yn cynnwys ffurfdroadau ond nid tarddiadau), penderfynwyd defnyddio rhestr o lemâu yn hytrach na geiriau. Amlinellir y prosesau a phrotocolau lemateddio a ddefnyddiwyd wrth lunio rhestrï *Yr Amliadur* yn adran 3.2<sup>2</sup> Knight, Morris, Tovey-Walsh et al. (2020). At ddibenion y prosiect hwn, defnyddiwyd y rhestr o'r 3000 lema mwyaf aml (y "rhestr 3k") yn unig. Roedd hyn yn alinio gyda chyfanswm nifer yr eitemau yn y tair rhestr geirfa graidd bresennol ar gyfer lefelau A1, A2 a B1 Dysgu Cymraeg (*Geirfa Graidd* – Morris & Meara, 2019a; 2019b; Morris, et al., 2019).

Fel man cychwyn, roedd angen rhestr gynhwysfawr o ddodiaid Cymraeg ar gyfer y fethodoleg. Noda Cooper ac Arman '*Mae geiriaduron cyfoes a llyfrau gramadeg disgrifiadol yn ceisio rhestru holl ddodiaid ieithoedd ynghyd â'u swyddogaethau neu eu hystyron, ac mae PW Thomas (1996) a GPC Ar lein (2014) yn gampweithiau disgrifiadol hanfodol o'r Gymraeg*' (2020: 75). Mae Thomas (1996) yn cyflwyno rhestr anodedig o ddodiaid tarddiadol, a defnyddir y rhain, gyda *Geiriadur Prifysgol Cymru* (2014) yn rhoi gwybodaeth atodol. Ar sail y rhestrï o ddodiaid yn Thomas (1996), lluniwyd rhestr o ragddodiaid ac ôl-ddodiaid Cymraeg cyfoes a gellir dod o hyd iddi yn Atodiad 1.

Yn y prosiect hwn, roedd pennu pa mor ddefnyddiol yw dodiad i ddysgwyr yn golygu nodi pa mor aml y câi ei ddefnyddio, a pha mor "gynhyrchiol"<sup>3</sup> ydyw – mewn geiriau eraill, faint o eiriau gwahanol mae'n cael ei ddefnyddio ynddynt. Mae'r rhyngweithio rhwng y ddwy elfen hon yn allweddol. Os bydd dodiad penodol yn digwydd mewn gair a nodwyd yn un uchel yn y rhestr lemâu 3k, ond nad yw'n digwydd mewn unrhyw eiriau eraill yn y rhestr, mae ei gynhyrchedd yn isel a'r angen i ddysgwyr ymglyfarwyddo ag ef yn gyfyngedig. Yn yr un modd, os bydd dodiad penodol yn digwydd mewn llawer o eitemau gwahanol, ond pob un o'r rhain yn digwydd yn anaml (wedi'i ddiffinio yma fel eitem nad yw yn y rhestr 3k), mae ei ddefnyddioldeb i ddysgwyr yn gyfyngedig. Felly dyma'r protocol a ddefnyddiwyd i dynnu rhestr o ddodiaid targed allan o'r rhestr o ddodiaid posibl:

---

<sup>2</sup> Mae'r prosiect hwn wedi cydnabod a chadw'r rhain ar wahân i rai eithriadau e.e. caiff y berfenw ei restru'n aml fel lema berf ac enw ar wahân yn *Yr Amliadur*. Ar gyfer y prosiect hwn, rydym wedi eu cyfuno yn un lema berfenw achos dyma sut maen nhw'n cael eu haddysgu a'u trin mewn trafodaethau gramadegol ar ddodiaid.

<sup>3</sup> Ni ddylid cymysgu'r term 'cynhyrchiol' yma gydag 'anghyrchiol' yn Atodiad 1. Mae Thomas (1996) yn trafod dodiaid fel rhai 'cynhyrchiol' neu 'anghyrchiol' h.y. ydyn nhw'n ddodiaid ffrwythlon o hyd o ran llunio geiriau newydd mewn Cymraeg cyfoes.

- Chwiliwyd am bob dodiad yn Atodiad 1 a nodwyd gan Thomas (1996) fel un cynhyrchiol yn rhestr lemâu 3k *Yr Amlriadur*. Os na ddaethpwyd o hyd iddo yn y rhestr, ni châi ei ystyried ymhellach.
- Os daethpwyd o hyd iddo yn y rhestr, cofnodwyd nifer y geiriau gwahanol yn y rhestr 3k sy'n cynnwys y dodiad hwnnw – mae hyn yn cynrychioli nifer y *mathau*, h.y. nifer y geirffurfiau unigryw. Mae'r wybodaeth yma'n ymwneud â *chynhyrchedd*: mwyaf o fathau sydd, mwyaf cynhyrchiol yw'r dodiad. Er enghraifft, mae tri gair yn y rhestr 3k yn defnyddio'r ôl-ddodiad *-awd* (*degawd*, *traethawd*, *pennawd*), felly cofnodir “3 math” ar gyfer y dodiad *-awd*.
- Wedyn, pennwyd faint o weithiau mae pob math yn digwydd o fewn corpws cyfan CorCenCC (oddeutu 11 miliwn o eiriau). Mae hyn yn cynrychioli nifer y *tocynnau*. Yn yr enghraifft uchod, digwyddodd *degawd* 870 o weithiau yn y corpws, gyda *traethawd* yn digwydd 506 o weithiau, a *pennawd* yn digwydd 268 o weithiau. Cofnodir y rhifau hyn, a chyfrifo cyfanswm y *tocynnau* ar gyfer pob dodiad (ar gyfer *-awd*, cafwyd (870+506+268 =) 1644 o *docynnau*).

Gellir gweld y rhestr sy'n deillio o hynny yn Atodiad 2. Yma gwelwn ni, er enghraifft, fod y rhagddodiad negyddol *an-* yn digwydd 16,309 o weithiau (16,309 o *docynnau*) ac yn y rhestr lemâu 3k, yn digwydd mewn 15 gair gwahanol (15 math). Felly, mae modd ei ddisgrifio fel rhagddodiad ag amllder a chynhyrchedd eithaf uchel o'i gymharu, er enghraifft, â'r rhagddodiad *rhyng-* sydd â 1,981 o *docynnau* a dim ond 2 fath (*rhyngwladol* a *rhyngwrwyd*).

Ar ôl cadarnhau'r wybodaeth am fathau a thocynnau ar gyfer y rhestr o ddodiaid, y cam nesaf oedd neilltuo dodiaid i lefelau dysgu priodol. Defnyddiwyd lefelau'r CEFR, er mwyn alinio â'r protocolau cwricwlwm ac asesu a ddefnyddir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ceir nifer o nodweddion eraill ochr yn ochr ag amllder (a ddynodir gan *docynnau*) a chynhyrchedd (*mathau*), y mae modd eu hystyried wrth lunio rhestr raddedig o ddodiaid ar gyfer dysgwyr (mae gan brosiect Brown (2020-2024), y cyfeiriwyd ato uchod, restr weithredol o 62 o nodweddion). At ddibenion y prosiect cyfredol, rhoddwyd ystyriaeth i bum nodwedd ychwanegol:

- Mae *rheoleidd-dra* yn ymwneud â sut y gall sail newid o ran ffurf ac ystyr pan ychwanegir dodiad. Wrth ystyried rheoleidd-dra yng nghyd-destun y Gymraeg, rhaid rhoi sylw i unrhyw dreigladau a ddaw yn sgil ychwanegu rhagddodiad. Er enghraifft, gall y rhagddodiad *an-* esgor ar dreiglo'r sail yn drwynol (*an + disgwyl > annisgwyl*).
- Gall *swyddogaeth* dodiad fod yn gysylltiedig â'r newidiadau hyn, ac â'r nodwedd isod e.e. ychwanegir y rhagddodiad *an-* at enw, berfenw neu ansoddair i gyfleu ystyr negyddol. Cofnodir y swyddogaeth hon yn y drydedd golofn yn Atodiad 2.
- Mae *rhagweladwyedd* yn gysylltiedig â pha mor rhagweladwy yw ystyr ychwanegu dodiad at sail e.e. mae *an-* yn rhagddodiad negyddol rhagweladwy ar y cyfan *cywir > anghywir*, *sicr > ansicr*, hyd yn oed pan nad oes gan y sail ystyr sy'n annibynnol e.e. *anhygoel* (ni ddeuir ar draws *-hygoel* heb ddodiaid mewn Cymraeg cyfoes). Ar y llaw arall, mae *cyf-* yn aml, yn gynhyrchiol ac yn rheolaidd ond nid yw mor rhagweladwy o ran ei ystyr. Er enghraifft, yn *cyfieithu*, *cyflawn* a *cyfagos*, nid yw mor hawdd rhagweld mewnbyn *cyf-*, er bod peth tebygrwydd semantig ar draws y tair eitem.

- Gall *anhryloywedd etymolegol* gair effeithio ar ba mor ddefnyddiol yw adnabod dodiad penodol mewn cyd-destun. Er enghraifft, mae'n glir mai *cyf- + rhan* yw *cyfran*, ond mae'r cysylltiad etymolegol yn *cyfraith* yn llai amlwg, achos bod yr elfennau *cyf-* a *-raith* wedi ymglyfuno'n hanesyddol ac nid yw gwybod ystyron pob rhan o'r gair o gymorth mewn cyd-destun pedagogiaidd. Cadarnhawyd dodiad etymolegol anhryloyw trwy ymgynghori â *Geiriadur Prifysgol Cymru* (2014).
- Mae *gwybodaeth am y sail* yn ystyriaeth bwysig. Mewn llawer o achosion, mae eitemau gyda dodiad yn cael eu defnyddio'n amlach na'r seiliau e.e. *diddorol* a *diddordeb*. Mae gwybodaeth am ddodiaid yn fwyaf defnyddiol pan fydd dysgwyr eisoes wedi dysgu'r sail. Felly, mae amlder y sail (a'r lefel y caiff ei dysgu yn y cwricwlwm - yn yr achos yma, y rhestr *Geirfa Graidd* (2019) lle mae'n ymddangos) yn bwydo i benderfyniadau sy'n cysylltu dodiaid â lefelau dysgwyr.

#### 4. CANLYNIADAU AC ALLBYNNAU

Roedd trosi'r data amlder (tocynnau) a chynhyrchedd (mathau) yn Atodiad 2 i restrri pedagogiaidd addas i lefelau dysgwyr penodol yn golygu defnyddio'r pum ystyriaeth a restrir uchod. Hysbyswyd cynllun a strwythur y rhestrri gan Bauer a Nation (1993), a thrwy ymgynghori ag arbenigwyr o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a CBAC.

Mae Bauer a Nation yn awgrymu rhestru dodiaid ar draws saith lefel, gan nodi bod '*...divisions between levels are arbitrary and are merely intended to give easily identified steps along a cline*' (1993, t.257). Yn eu rhestrri nhw, mae dodiaid tarddiadol yn dechrau ar lefel 3 gyda phwyslais ar amlder a rheoleidd-dra ac yn gorffen ar lefel 7 gyda 'gwreiddiau a dodiaid clasurol'. Mae'r prosiect cyfredol wedi rhoi pwysoliad tebyg i amlder a rheoleidd-dra. Fel y nodwyd uchod, roedd yn ofynnol i'r rhestrri a argymhellir gan y prosiect cyfredol fapio ar lefelau'r CEFR, a dyma'r strwythur a ddefnyddir yn y rhestrri isod.

#### RHESTR<sup>4</sup> ARFAETHEDIG O DDODIAID WEDI'U GRADDIO YN ÔL LEFELAU'R CEFR

##### A1

- **Dodiaid ffurfdroadol e.e. terfyniadau berfau, ffurfiau lluosog.** Mae'r rhain yn rhan annatod o gwricwlwm A1 a chaiff y syniad o affeithiad ei gyflwyno i ddysgwyr hefyd o ganlyniad i'r dodiaid ffurfdroadol hyn.
- **Ôl-ddodiaid berfenwau -u, -o(-io) ac -i.** At ei gilydd, dyma'r dodiaid amlder uchaf o ran mathau a thocynnau (1<sup>af</sup>, 2<sup>il</sup> a 5<sup>ed</sup> yn y rhestr mathau a 1<sup>af</sup>, 2<sup>il</sup> a 4<sup>ydd</sup> yn y rhestr tocynnau). Cânt eu grwpio yma oherwydd eu swyddogaeth gyffredin. Ar ben hynny, mae'r rheoleidd-dra sydd ymhlyg yn y weithred o'u

<sup>4</sup> Pwysleisir mai rhestr arfaethedig yw hon wedi'i hysbysu'n bennaf gan y data a gasglwyd yn y prosiect hwn. Fe'i bwriedir fel sylfaen i ymarferwyr Dysgu Cymraeg ei thrafod, ei mireinio a'i gwella maes o law.

tynnu er mwyn ffurfio bôn y ferf ac ychwanegu dodiaid ffurfdroadol ato, yn rheswm i'w cynnwys.

## A2

- **Ôl-ddodiaid enw -ad/-iad, -(i)aeth, -yn, ac -wr.** Dyma'r pedwar ôl-ddodiad enw a drefnwyd uchaf yn rhestr y tocynnau ac maent yn uchel hefyd yn rhestr y mathau (108, 69, 26, 50 yn ôl eu trefn). Hefyd, gallant helpu'n aml o ran gwybod cenedl enw:
  - -ad/-iad yn ffurfio enwau gwrywaidd e.e. *caru* > *cariad*; *tal* > *taliad*; *lleol* > *lleoliad*
  - -(i)aeth yn ffurfio enwau benywaidd yn bennaf<sup>5</sup> e.e. *gwybod* > *gwybodaeth*; *trafod* > *trafodaeth*
  - -yn yn ffurfio enwau gwrywaidd. Ceir nifer o eitemau A1/A2 y mae'n fwy cyffredin i ddysgwyr ddod ar eu traws nhw yn eu ffurf luosog ond sy'n ychwanegu -yn i ffurfio'r unigol e.e. *plenty* (*plant*); *pysgodyn* (*pysgod*); *mochyn* (*moch*)
  - -wr yn ffurfio enwau gwrywaidd. Er syndod, nid oedd enghreifftiau o -wraig/-reg yn y rhestri 3k, ond dylid eu cynnwys nhw yma (o bosib hefyd gyda'r ôl-ddodiad 'niwtral' -ydd) am resymau sosio-ieithyddol, a chan gofio pa mor gynhyrchiol yw'r ôl-ddodiad hwn yng nghyd-destun teitlau swyddi ac ati e.e. *myfyriwr*; *dysgu* > *dysgwr*; *ffarm* > *ffarmwr*.
- **Ôl-ddodiaid ansoddair -ol/-iol ac -og.**
  - trefnir -ol/-iol yn uchel iawn yn y rhestri mathau a thocynnau (3<sup>ydd</sup> yn y ddwy) e.e. *lle* > *lleol*; *cyffredin* > *cyffredinol*; *arian* > *ariannol*
  - -og<sup>6</sup> e.e. *dwyr + iaith* > *dwyr ieithog*; *canol* > *canolog*. Mae'n ddiddorol nad yw'r ansoddeiriau cyffredin sy'n ymwneud â'r tywydd *gwyntog*, *niwlog*, *cymylog* yn ymddangos yn y rhestr 3k. Er hynny, mae eu cynnwys nhw yn y cwricwlwm A1/A2 yn golygu bod -og yn haeddu cael ei gynnwys yma.
- **Rhagddodiad ym-** . Mae'r rhagddodiad hwn yn uchel ar y rhestr mathau, gyda 41 o fathau, ac mae'n 10<sup>fed</sup> ar restr y tocynnau. Mae *ym-* [+ treigladd meddal] yn ffurfio berfenwau atblygol ac mae'n debyg y bydd dysgwyr wedi dod ar ei draws eisoes yn y cyfuniad *golchi* / *ymolchi*.
- **Ôl-ddodiad berfenw -a.** Nid yw hwn mor gynhyrchiol â'r ôl-ddodiaid berfenwau a restrir ar gyfer A1 (gyda 10 math ac wedi'i drefnu'n 25<sup>ain</sup> ar restr y tocynnau) ond mae'n debyg y bydd dysgwyr wedi dod ar ei draws mewn eitemau eitha aml fel *bwyta*, *siopa*.

---

<sup>5</sup> Noder y gall hyn fod yn fwy addas ar gyfer B1 gan nad yw llawer o ffurfiau'r seiliau ar lefel A2 neu'n cynnwys ôl-ddodiad ychwanegol e.e. *marw* > *marwol* > *marwolaeth*; *cefn* > *cefnog* > *cefnogaeth*. Efallai na fydd sail geiriau eraill yn y categori hwn mor amlg i ddysgwyr A2 chwaith e.e. *llywodraeth*, *gwasanaeth*.

<sup>6</sup> Dylid nodi hefyd ffurfio enw yn *swyddog* (*swydd+og*).

## B1

- **Ôl-ddodiaid enw -eg/-oleg, -fa ac -ydd.** Trefnir y rhain i gyd yn uchel o ran tocynnau (dros 10,000 tocyn yr un) a mathau:
  - *-eg/-oleg* (9 math) yn ffurfio enwau benywaidd. Mae'r ôl-ddodiad cyfatebol yn Saesneg *-ology*, enwau ieithoedd a'r disgwyliad o wybod enwau pynciau ysgol ar lefel B1 yn gwneud hon yn lefel addas i'w gyflwyno yma, er gwaetha y ffaith iddo gael ei drefnu'n isel o ran mathau. Mae enghreifftiau yn cynnwys *Sbaen > Sbaeneg; technoleg; mathemateg*.
  - *-fa* (15 math) yn ffurfio enwau benywaidd e.e. *swydd > swyddfa; golwg > golygfa*.
  - *-ydd* (22 math) yn ffurfio enwau gwrywaidd e.e. *ysgrifennu > ysgrifennydd; cadair > cadeirydd*.
- **Ôl-ddodiaid ansoddair -ig, -us, -edig, -aidd.**
  - *-ig* (16 math, 20,000+ o docynnau) e.e. *un > unig; gwlad > gwledig*. Hefyd, mae *-ig* yn cyfateb yn aml i'r Saesneg *-ic* mewn benthyciadau e.e. *ethnig; electronig; awtomatig*.
  - *-us* (20 math, 10,000+ o docynnau) e.e. *blas > blasus; perygl > peryglus*
  - *-edig* (13 math, 7000+ o docynnau) e.e. *blino > blinedig; un/uno > unedig*. Er gwaethaf y nifer gymharol isel o docynnau, cynhwysir *-edig* yma achos gellir ei ddefnyddio i gyfleu rhangymeriad gorffennol y Saesneg mewn benthyciadau e.e. *integredig*. (Dylid nodi nad dyma'r achos bob tro o ran cyfleu rhangymeriad y gorffennol, ac mae'n debyg y byddai'n ddoethach cadw gwaith ar archwilio hyn yn fwy manwl i lefel B2).
  - *-aidd* (9 math, 6000+ o docynnau). Mae dysgwyr eisoes yn gyfarwydd â *benywaidd* a *gwrywaidd* erbyn B1 ac felly mae ymestyn gwybodaeth am yr ôl-ddodiad hwn yn briodol yma e.e. *Ewrop > Ewropeaidd; poblogaidd; rheol > rheolaidd*.
- **Rhagddodiaid cyf-, an-**. Mae'r ddau yma yn cael eu defnyddio mewn 15,000+ o docynnau.
  - *cyf-* (34 math). Mae'n cael ei ddefnyddio gydag enwau, ansoddeiriau neu ferfenwau + threigladd meddal gyda'r ystyr o 'gyda'i gilydd/ar y cyd' e.e. *rhif > cyfrif [cyfrifol/cyfrifoldeb]; gweld > cyfweld [cyfweliad]*.
  - *an-* (15 math). Rhagddodiad negyddol gydag enwau, berfenwau neu ansoddeiriau + threigladd meddal neu drwynol: *cofio > anghofio; ffodus > anffodus; cytuno > anghytuno*.

## B2/B2+

- Ôl-ddodiaid â 5 neu fwy o fathau a thros 2000 o docynnau:
  - *-eb* Ôl-ddodiad enw (benywaidd)
  - *-en* Ôl-ddodiad enw (benywaidd)
  - *-wch* Ôl-ddodiad enw (gwrywaidd)
  - *-adur* Ôl-ddodiad enw (gwrywaidd)

- *-rwydd* Ôl-ddodiad enw (gwrywaidd)
  - *-edd* Ôl-ddodiad enw (gwrywaidd)
  - *-deb* Ôl-ddodiad enw (gwrywaidd)
  - *-iant* Ôl-ddodiad enw (gwrywaidd)
- Rhagddodiaid gyda 5 neu fwy o fathau a thros 2000 o docynnau:
    - *cyf-* Yn cryfhau gydag enwau, ansoddeiriau + threigladd meddal
    - *dad/dat-* Negyddol gydag enwau, berfenwau + threigladd meddal
    - *di-* 'Gyda' neu negyddol gydag enwau, berfenwau, ansoddeiriau + threigladd meddal
    - *ar-* 'Ar ben' gydag enwau, berfenwau, ansoddeiriau + threigladd meddal
    - *am-* 'O gwmpas' / yn gwanhau gydag enwau, berfenwau, ansoddeiriau + threigladd meddal
    - *dar-* Yn gwanhau gydag enwau, berfenwau, ansoddeiriau + threigladd meddal
    - *cyd-* 'Ynghyd' gydag enwau, berfenwau, ansoddeiriau + threigladd meddal

\* Gallai trafodaeth bellach am ddodiaid gynnwys sut i greu a gweithredu **strategaethau** i ddsygwyr eu defnyddio'n effeithiol er mwyn caffael ac ymestyn eu geirfa.

## CYFEIRIADAU

Arman, L. (2020). Morffoleg: astudiaeth o ffurf geiriau. Yn Cooper, S. & Arman, L. (Gol.), *Cyflwyniad i ieithyddiaeth* (tt. 74-76). E-lyfr [https://adnoddau.s3.eu-west-2.amazonaws.com/pdfs/Cyflwyniad\\_i\\_ieithyddiaeth.pdf](https://adnoddau.s3.eu-west-2.amazonaws.com/pdfs/Cyflwyniad_i_ieithyddiaeth.pdf) Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bauer, L. & Nation, P. (1993). Word families. *International Journal of Lexicography*, 6(4), 253-279. <https://doi.org/10.1093/ijl/6.4.253>

Brown, D. (2020-2024). A usage-based approach to understanding L2 learners' knowledge of English affixes. <https://kaken.nii.ac.jp/en/grant/KAKENHI-PROJECT-20K0089>

Cobb, T. & Laufer, B. (2021). The nuclear word family list: A list of the most frequent family members, including base and affixed words. *Language Learning*, 71(3), 834-871. <https://doi.org/10.1111/lang.12452>

Geiriadur Prifysgol Cymru: geiriadur Cymraeg ar-lein (2014). Prifysgol Cymru. <https://www.geiriadur.ac.uk>

Knight, D., Morris, S., Fitzpatrick, T., Rayson, P., Spasić, I., Thomas, E-M., Lovell, A., Morris, J., Evas, J., Stonelake, M., Arman, L., Davies, J., Ezeani, I., Neale, S., Needs, J., Piao, S., Rees, M., Watkins, G., Williams, L., Muralidaran, V., Tovey-Walsh, B., Anthony,



- L., Cobb, T., Deuchar, M., Donnelly, K., McCarthy, M. & Scannell, K. (2020). CorCenCC: Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes. Prifysgol Caerdydd, <http://doi.org/10.17035/d.2020.0119878310> <https://corcencc.cymru>
- Knight, D., Morris, S., Tovey-Walsh, B., Fitzpatrick, T. & Anthony, L. (2020). Yr Amliadur: Rhestrï amllder ar gyfer Cymraeg Cyfoes. Prifysgol Caerdydd, <http://doi.org/10.17035/d.2020.0120164107>
- Morris, S. & Meara, P. (2019a). Geirfa Graidd Lefel Mynediad. <https://www.eduqas.co.uk/media/035dcnfh/mynediad-geirfa-graidd.pdf>
- Morris, S. & Meara, P. (2019b). Geirfa Graidd Lefel Sylfaen. <https://wjecwebsitilive.blob.core.windows.net/media/trwbbgaj/sylfaen-geirfa-graidd.pdf?sv=2019-07-07&sr=b&sig=3oPvS2L%2BUoJbhzoS9ZKx6x2FKRtjS9vdGkFLjOf3Xc4%3D&se=2024-03-11T16%3A40%3A16Z&sp=r>
- Morris, S., Meara, P. & Fitzpatrick, T. (2019). Geirfa Graidd Lefel Canolradd. <https://wjecwebsitilive.blob.core.windows.net/media/wpnbjqyc/intermediate-level-core-vocabulary-list-e.pdf?sv=2019-07-07&sr=b&sig=0%2FXD4RSnZF7DZh7MwJVBy%2FHUgP88DYF8Ern2vin0C1M%3D&se=2024-03-11T16%3A42%3A02Z&sp=r>
- Nation, I. S. P. (2022) *Learning vocabulary in another language* (3ydd arg.). Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt. <https://doi.org/10.1017/9781009093873>
- Sasao, Y. & Webb, S. (2017). The Word Part Levels Test. *Language Teaching Research*. 21(1). 12-30. <https://doi.org/10.1177/1362168815586083>
- Thomas, P.W. (1996). *Gramadeg y Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Webb, S. & Nation, I.S.P. (2017). *How vocabulary is learned*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

## Atodiad 1

Rhagddodiaid		
Dodiad	Dosbarthiad yn Gramadeg y Gymraeg	Treigladd
Rhagddodiaid cyflawn		
a-	Anghynhyrchiol	
ad-	Anghynhyrchiol	
add-	Anghynhyrchiol	
af-	rhagddodiad negyddol - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
all-	allan - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
an-	rhagddodiad negyddol - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TT/TM
arch-	maint/graddfa - enwau, ansoddeiriau	TM
awto-	Benthyciad	
can-	Anghynhyrchiol	
cyf- [1]	Cryfhau - enwau, ansoddeiriau	TM
cyf- [2]	1 gydag enw = ansoddair 2 gyda'i gilydd - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
cyfr-	Anghynhyrchiol	
cyn- [3]	Anghynhyrchiol	
dad- [1]	rhagddodiad negyddol - enwau, berfenwau	TM
dad- [2]	Gwanhau - enwau, berfenwau	TM
dar-	Gwanhau - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
di- [1]	Anghynhyrchiol	
di- [2]	1 gydag enw = ansoddair 2 rhagddodiad negyddol - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
dis- [1]	Anghynhyrchiol	
dis- [2]	Anghynhyrchiol	
do-	Anghynhyrchiol	
dy- [1]	Anghynhyrchiol	
dy- [2]	Gwanhau - enwau, berfenwau	TM/TLI
e-	Anghynhyrchiol	
ech- [1]	allan - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
ech- [2]	Anghynhyrchiol	
en-	Anghynhyrchiol	
go-	Anghynhyrchiol	
gor-	maint/graddfa - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM/TLI
gwrth-	1 gydag enw = ansoddair 2 yn erbyn - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
hy-	1 gydag enw/bôn berfenw = ansoddair 2 cryfhau - ansoddeiriau	TM
mono-	Benthyciad	
neo-	Benthyciad	TM
poly-	Benthyciad	
proto-	Benthyciad	

tra- [1]	maint/graddfa - enwau, ansoddeiriau	TLI
traf-	Anghynhyrchiol	
try-	Anghynhyrchiol	
ym- [1]	hunan, atblygol - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
ym- [2]	Anghynhyrchiol	
<b>Rhagddodiaid Rhannol</b>		
am-	1 o gwmpas - enwau, berfenwau, ansoddeiriau 2 gwanhau - enwau, berfenwau	TM
ar-	ar ben - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
cyd-	gyda'i gilydd - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
cyn- [1]	Anghynhyrchiol	
cyn- [2]	Anghynhyrchiol	
dir-	Cryfhau - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
mewn-	mewn - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
rhag-	o flaen/cyn - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
rhy-	Anghynhyrchiol	
rhyng-	gyda/ymhlith - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
tan-	1 gydag enw = ansoddair 2 o dan - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
tra- [2]	Anghynhyrchiol	
traws-	1 gydag enw = ansoddair 2 tros/ar draws - enwau, berfenwau, ansoddeiriau	TM
tros-	ar, dros - enwau, berfenwau,	TM

<b>Ôl-ddodiaid</b>	
<b>Dodiad</b>	<b>Dosbarthiad yn Gramadeg y Gymraeg</b>
<b>Ôl-ddodiaid enwau - benywaidd</b>	
ach	Anghynhyrchiol
aeth	
as	Anghynhyrchiol
eb	
eg	
ell	
en	
es [1] > benywaidd	
es [2] > enw torfol	
fa	
in	Anghynhyrchiol
oedd	Anghynhyrchiol
or [1]	Anghynhyrchiol
red	Anghynhyrchiol

wraig / reg	
<b>Ôl-ddodiaid enwau - gwrywaidd</b>	
ad / iad	
adur	
ai	
aint	
awd	
awdwr	Anghynhyrchiol
cyn	Anghynhyrchiol
deb	
der	
did	Anghynhyrchiol
dod	
dra	
dwr	Anghynhyrchiol
edd	
fel	Anghynhyrchiol
i	Anghynhyrchiol
iant	
id	Anghynhyrchiol
ineb	Anghynhyrchiol
mon	Anghynhyrchiol
od	
ol	
or	Anghynhyrchiol
rwydd	
wch	
wr	
ych	Anghynhyrchiol
yd	Anghynhyrchiol
ydd	
yn	
<b>Ôl-ddodiaid enwau - heb newid cenedl enw</b>	
aid	
od	
<b>Ôl-ddodiaid enwau - gwr./ben.</b>	
an	Anghynhyrchiol
ed	Anghynhyrchiol
ig	Anghynhyrchiol
og	Anghynhyrchiol
yll	Anghynhyrchiol
<b>Ôl-ddodiaid enwau - wedi'u hychwanegu at y lluosog</b>	
ach	
os	

<b>Ôl-ddodiaid berfenwau</b>	
i	
o	
u	
a	
ach	
an	
ial	
ael	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
aeth	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
as	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
d	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
eg	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
el	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
fan	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
in	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
ur	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
ych	Cyfyngedig > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
yll	Cyfyngedig iawn > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
ain	Cyfyngedig iawn > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
ed	Cyfyngedig iawn > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
yd	Cyfyngedig iawn > wedi'i drin yn anghynhyrchiol
<b>Ôl-ddodiaid ansoddeiriau</b>	
ad	Anghynhyrchiol
adwy	
aid	Anghynhyrchiol
aidd	
ar	Anghynhyrchiol
ed	Anghynhyrchiol
edig	
gar	
ig	
in	Anghynhyrchiol
lon	
lyd	
og	
ol	
us	

## Atodiad 2

DODIAD	ÔL-DDODIAD / RHAGDDODIAD	SWYDDOGAETH	MATHAU	TOCYNNAU
a	Ôl	Ôl-ddodiad berfenw	10	9013
ach	Ôl	Ôl-ddodiad enw wedi'i ychwanegu at y lluosog	0	Amherthnasol
ach	Ôl	Ôl-ddodiad berfenw	0	Amherthnasol
ad (iad)	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	108	102080
adur	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	6	2922
adwy	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	3	1410
aeth	Ôl	Ôl-ddodiad enw > ben	69	66168
ai	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	1	438
aid	Ôl	Ôl-ddodiad enw > yr un genedl	1	367
aidd	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	9	6327
aint	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	0	Amherthnasol
an	Ôl	Ôl-ddodiad berfenw	2	914
awd	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	3	1644
deb	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	8	9780
der	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	5	1254
dod	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	4	2716
dra	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	0	Amherthnasol
eb	Ôl	Ôl-ddodiad enw > ben	5	2090
edd	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	14	8875
edig	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	13	7425
eg (+oleg)	Ôl	Ôl-ddodiad enw > ben	9	44655
ell	Ôl	Ôl-ddodiad enw > ben	4	2837
en	Ôl	Ôl-ddodiad enw > ben	11	7039
es	Ôl	Ôl-ddodiad enw > ben	2	839
es	Ôl	Ôl-ddodiad enw > torfol	0	Amherthnasol
fa	Ôl	Ôl-ddodiad enw > ben	15	15257
gar	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	4	1584
i	Ôl	Ôl-ddodiad berfenw	75	108137
ial	Ôl	Ôl-ddodiad berfenw	1	315
iant	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	14	11477
ig	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	16	23486
lon	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	3	1665
lyd (llyd)	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	1	383
o (io)	Ôl	Ôl-ddodiad berfenw	178	171832
og (iog)	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	10	6710
ol	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	3	5768
ol (iol)	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	148	122260
os	Ôl	Ôl-ddodiad enw wedi'i ychwanegu at y lluosog	0	Amherthnasol
rwydd	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	8	4407

u	Ôl	Ôl-ddodiad berfenw	179	244122
us	Ôl	Ôl-ddodiad ansoddair	20	13288
wch	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	6	2315
wr	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	50	29723
wraig (reg)	Ôl	Ôl-ddodiad enw > ben	0	Amherthnasol
ydd	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	22	15387
yn	Ôl	Ôl-ddodiad enw > gwr	26	38963
af	Rhag	Rhag neg + e, bf, a / TM	0	Amherthnasol
all	Rhag	Allan + e, bf, a / TM	4	1319
am	Rhag	O gwmpas / gwanhau + e, bf, a / TM	9	6320
an	Rhag	Rhag neg + e, bf, a / TM - TT	15	16309
ar	Rhag	"Ar ben" + e, bf, a / TM	15	8043
arch	Rhag	Maint / graddfa + e, a / TM	1	281
awto	Rhag	Benthyciad	1	297
cyd	Rhag	Gyda'i gilydd + e, a, bf / TM	9	5257
cyf (1)	Rhag	Cryfhau + e, a / TM	14	11424
cyf (2)	Rhag	Gyda'i gilydd + e, a, bf / TM	34	42098
dad (dat) 1	Rhag	Negyddol + e, bf / TM	7	9289
dad (dat) 2	Rhag	Gwanhau + e, bf / TM	2	2247
dar	Rhag	Gwanhau + e, bf, a / TM	7	5499
di	Rhag	Gydag e > a / neg + e, bf, a / TM	11	10999
dir	Rhag	Cryfhau + e, bf, a / TM	0	Amherthnasol
dy	Rhag	Gwanhau + e, bf / TM	3	962
ech	Rhag	Allan + e, bf, a / TM	0	Amherthnasol
gwrth	Rhag	Gydag e > a / Yn erbyn	4	1189
hy	Rhag	Gydag e > a	1	1549
mewn	Rhag	Yn + e, bf, a / TM	4	1722
rhag	Rhag	O flaen / cyn + e, bf, a / TM	3	8591
rhyng	Rhag	Gyda / Rhwng + e, bf, a / TM	2	1981
tan	Rhag	O dan + e, bf, a / TM	3	837
tra	Rhag	Maint / graddfa + e, a / TLI	2	1376
traws	Rhag	Ar draws + e, bf, a / TM	1	442
tros	Rhag	Ar, dros + e, bf / TM	2	1532
ym	Rhag	Atblygol e, bf, a / TM	41	37108

